



Y Gwir Anrhydeddus Darren Jones AS  
Prif Ysgrifennydd y Prif Weinidog

[consultation@digitalid.cabinetoffice.gov.uk](mailto:consultation@digitalid.cabinetoffice.gov.uk)

05 Mai 2025

Annwyl Brif Ysgrifennydd

## Ymgynghoriad - Gwneud i wasanaethau cyhoeddus weithio i chi gyda'ch hunaniaeth ddigidol

Diolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad uchod am hunaniaeth ddigidol. Bydd ein hymateb yn canolbwyntio ar faterion sy'n berthnasol i'r Gymraeg, ac i'w siaradwyr.

### Hawliau siaradwyr Cymraeg

Byddwch yn ymwybodol bod rhaid i'r rhan fwyaf o sefydliadau cyhoeddus sydd yn gweithredu yng Nghymru gynnig gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd. Mae rhai sefydliadau yn gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, tra bod sefydliadau eraill yn gweithredu yn unol â Safonau'r Gymraeg a ffurfiwyd yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Creodd y Mesur hefyd swydd Comisiynydd y Gymraeg i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg a rhoi pwerau rheoleiddio i ni er mwyn goruchwyllo cydymffurfiaeth sefydliadau cyhoeddus gyda'r safonau a chynlluniau iaith.

Mae mwyafrif y sefydliadau cyhoeddus sy'n gweithredu ar lefel Brydeinig yn gweithredu cynlluniau iaith, gan gynnwys sefydliadau mawr fel Cyllid a Thollau EF (CaThEF) a'r Adran Gwaith a Phensiynau (AGPh) sy'n darparu gwasanaethau i nifer fawr o bobl yng Nghymru. Mae fy swyddfa eisoes yn gweithio â swyddogion o'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a

Comisiynydd y Gymraeg  
Siambrau'r Farchnad  
5-7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221  
[post@comisiynyddygybraeg.cymru](mailto:post@comisiynyddygybraeg.cymru)  
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

[comisiynyddygybraeg.cymru](http://comisiynyddygybraeg.cymru)

Welsh Language Commissioner  
Market Chambers  
5-7 St Mary Street  
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221  
[post@welshlanguagecommissioner.wales](mailto:post@welshlanguagecommissioner.wales)  
Correspondence welcomed in Welsh and English

[welshlanguagecommissioner.wales](http://welshlanguagecommissioner.wales)



Thechnoleg i ffurfio cynllun iaith fydd yn gosod allan ymrwymadau'r sefydliad o ran darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

### Gwasanaeth hunaniaeth ddigidol ddwyieithog

Rydym yn croesawu'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi'r ymgynghoriad hwn yn ddwyieithog. Roeddem hefyd yn falch pan gadarnhaodd eich swyddogion mewn gohebiaeth atom bod gweinidogion Llywodraeth Prydain wedi datgan yn gyhoeddus y byddai'r canlynol ar gael yn Gymraeg:

- Holl gynnwys taith defnyddiwr i gael y dystysgrif ID Cenedlaethol, yr un peth ag ar gyfer cynnwys sy'n wynebu defnyddwyr yn One Login [GOV.UK](https://www.gov.uk)
- Cymorth i ddefnyddwyr yn yr iaith Gymraeg dros y ffôn, e-bost a gwe-sgwrs gydag asiantau cymorth gwasanaeth Cymraeg ar gael, yr un peth ag ar gyfer defnyddwyr One Login [GOV.UK](https://www.gov.uk)
- Bydd dyluniad y cynnyrch terfynol ei hun yn cael ei ddatblygu yn unol â gofynion cyfreithiol, a byddwch yn ymgynghori ar hyn.

Roeddem yn synnu felly nad oedd cyfeiriad at yr uchod, na'r Gymraeg o gwbl, o fewn y ddogfen ymgynghori. Er mwyn sicrhau bod yr uchod yn weithredol pan fydd y gwasanaeth yn mynd yn fyw, dylai'r Gymraeg fod yn ofyniad dylunio craidd i'r gwasanaeth hunaniaeth ddigidol o'r pwynt cychwyn, ac anogwn chi i ymrwymo i hynny mewn unrhyw gynlluniau pellach y byddwch yn eu datblygu cyn mynd ati i adeiladu'r gwasanaeth newydd. Mae angen ystyried anghenion siaradwyr Cymraeg a nodweddiad yr iaith o'r pwynt cychwyn er mwyn osgoi problemau a gwasanaeth o ansawdd is maes o law.

I sicrhau gwasanaeth cyfartal yn y ddwy iaith mae'n rhaid datblygu'r ddwy fersiwn ar yr un pryd, gan brofi'r ddwy fersiwn gyda defnyddwyr er mwyn sicrhau bod yr iaith sy'n cael ei defnyddio'n addas ac yn hygyrch. Bydd yr adnoddau isod o ddefnydd i chi wrth fynd ati i gynllunio'r gwasanaeth newydd a gofynnwn ichi eu hystyried:

- Ein [dogfen gyngor](#) ar sut i ystyried y Gymraeg mewn technoleg, gwefannau a meddalwedd

Comisiynydd y Gymraeg  
Siambrau'r Farchnad  
5-7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221  
post@comisiynyddygyymraeg.cymru  
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner  
Market Chambers  
5-7 St Mary Street  
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221  
post@welshlanguagecommissioner.wales  
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales



- Ein [dogfen gyngor](#) ar ddrafftio dwyieithog, cyfieithu a defnyddio'r Gymraeg wyneb yn wyneb
- Ein [datganiad polisi](#) rheoleiddiol ar ddeallusrwydd artiffisial a'r Gymraeg (Mae llawer o'r cyfeiriadau yn y ddogfen hon yn ymwneud â safonau'r Gymraeg, ond mae'r un mor berthnasol i sefydliadau sy'n gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg)
- [Blog](#) am brofiadau eich cydweithwyr tra'n cynllunio'r gwasanaeth dwyieithog newydd i geisio am atwrniaeth arhosol.

Nid yw'n amlwg beth â olygir gan 'sichrau bydd dyluniad y cynnyrch terfynol yn cael ei ddatblygu yn unol â gofynion cyfreithiol'. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn datgan bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, ac rydym felly'n meddwl y dylai'r dyluniad terfynol fod ar gael yn ddwyieithog i bawb yng Nghymru a thu hwnt.

### Gwasanaethau cyhoeddus cydlynol

Mae Rhan 3 o'r ymgynghoriad yn sôn am bwysigrwydd cysylltu'r gwasanaeth hunaniaeth ddigidol yn effeithiol â gwasanaethau cyhoeddus eraill, er mwyn hwyluso darparu gwasanaethau cyhoeddus cydlynol. Rydym yn cefnogi'r uchelgais yma, ac rydym o'r farn bod hynny'n berthnasol iawn wrth ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Os nad yw dewis unigolyn i ddefnyddio'r Gymraeg yn cael ei barchu, neu os yw'n arwain at wasanaeth sy'n israddol, yna mae'r unigolyn yn llai tebygol o ddewis defnyddio'r gwasanaeth hwnnw yn y Gymraeg eto yn y dyfodol.

Fel soniwyd uchod, mae llawer o sefydliadau'r Goron yn darparu gwasanaethau Cymraeg i filoedd o bobl yn barod trwy eu cynlluniau iaith, a dylai hynny fod yn ystyriaeth wrth geisio sichrau cysylltiad di-dor rhwng y gwasanaethau hynny a'r gwasanaeth hunaniaeth ddigidol. Gallai hynny olygu sichrau bod dewis iaith unigolion yn parhau rhwng gwasanaethau, yn ogystal â meddwl am sut y gallai'r gwasanaeth newydd hwyluso'r dewis iaith hwnnw yn ddi-ofyn ar draws gwasanaethau'r Llywodraeth. Gan y bydd y gwasanaeth hunaniaeth ddigidol yn cael ei ddefnyddio gan ddefnyddwyr amrywiol i wirio hunaniaeth unigolion, bydd angen i'r system allu hwyluso dewis iaith pob un o'r defnyddwyr hynny ar

Comisiynydd y Gymraeg  
Siambrau'r Farchnad  
5-7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221  
post@comisiynyddygyymraeg.cymru  
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner  
Market Chambers  
5-7 St Mary Street  
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221  
post@welshlanguagecommissioner.wales  
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales



hyd y daith mewn ffordd ddi-dor. Ni ddylai dewis iaith unigolion eraill o fewn y daith effeithio mewn unrhyw ffordd ar y gwasanaeth y bydd siaradwyr Cymraeg yn ei dderbyn.

Rydym yn gobeithio y bydd y sylwadau uchod o ddefnydd i chi yn eich ymgynghoriad. Buasai fy swyddogion yn falch o gwrdd â chi i drafod ymhellach.

Yr eiddoch yn gywir,

**Efa Gruffudd Jones**

Comisiynydd y Gymraeg

Comisiynydd y Gymraeg  
Siambrau'r Farchnad  
5-7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221  
post@comisiynyddygyymraeg.cymru  
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner  
Market Chambers  
5-7 St Mary Street  
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221  
post@welshlanguagecommissioner.wales  
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales

---